*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

# 2024 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Mae adran 57 o'r Ddeddf yn darparu bod "tyllu'r corff" yn driniaeth arbennig at ddibenion Rhan 4.

Mae'r diffiniad o "tyllu'r corff" wedi ei ddarparu yn adran 94(1) o'r Ddeddf a'i ystyr yw gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae adran 94(2) o'r Ddeddf yn darparu, at ddiben diffinio "tyllu'r corff", fod y cyfeiriad at wneud trydylliad yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi y bydd unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith (er enghraifft bachau, angorau macrogroenol, angorau microgroenol, microsglodion cyfathrebu agosfaes, gleiniau silicon) yn dod o fewn y diffiniad o dyllu'r corff at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i'r unigolion hynny sy'n rhoi triniaeth tyllu'r corff gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu unrhyw wrthrych, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o

gorff yr unigolyn, gael trwydded triniaeth arbennig o dan Ran 4 o'r Ddeddf (oni bai eu bod wedi eu hesemptio).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2024 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *29 Tachwedd 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 94(1) a 123(1)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2)(b) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024.

---

(**1**) 2017 dccc 2 ("y Ddeddf"). *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf am y diffiniad o "rheoliadau".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o'r Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Tachwedd 2024.

**Gwrthrychau rhagnodedig at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

**2.** Mae unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith wedi ei ragnodi at ddibenion paragraff (b) yn y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ond dim ond i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw yn gymwys at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf honno (triniaethau arbennig).

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad